# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


08/01/2022

## PWYSIG - darllenwch yn ofalus. Gweithdrefnau yr ysgol ar gyfer ailagor yr ysgol Ionawr 2022

Annwyl rieni/warcheidwaid,
Rwy'n falch o gadarnhau y bydd yr ysgol yn ailagor i bob plentyn ddydd Llun 10/01/22- edrychwn ymlaen at groesawu ein dosbarth meithrin amser llawn yn ôl.

Rhagwelir y bydd cyfnod heriol ac ansicr o'n blaenau yn ystod mis Ionawr ac mae 'na ddisgwyl i nifer yr achosion positif gynyddu - mae'r patrwm yma wedi ei weld ar draws Cymru. Byddwn wrth gwrs yn cymryd y camau priodol os bydd hynny'n digwydd a byddwn yn adolygu ein hasesiad risg yn gyson.

Rydyn ni'n mawr obeithio na fydd yn rhaid i ni gau dosbarthiadau ond os yw lefel absenoldebau staff yn cynyddu i lefel na ellir ei reoli neu'n peryglu diogelwch ein disgyblion, yna bydd hyn yn arwain at ddysgu ar-lein / o bell ac efallai y bydd yn rhaid i ni gyhoeddi hynny ar a rhybudd byr iawn! Dim ond ar ôl i'r holl opsiynau eraill gael eu gweithredu y bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud.

Os oes achos positif yn nosbarth eich plentyn, byddwn yn anfon neges a llythyr atoch ar ap yr ysgol i'ch rhybuddio a'ch hysbysu. Os oes achos positif arall o fewn y dosbarth cyn pen 7 diwrnod ar ôl yr achos blaenorol, yna byddwn yn cyhoeddi llythyr arall at gysylltiadau agos yr achos positif i'w cynghori i gymryd LFT's dyddiol am 7 diwrnod.

**<u>MESURAU COVID</u>:**
Yn unol â 'Lefel Risg Uchel' byddwn yn parhau i weithredu ar y cyngor iechyd rydym yn ei dderbyn gan y Llywodraeth a'r ALl, sef sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn:

- Golchi dwylo'n drylwyr neu ddiheintio dwylo yn amlach nag arfer.
- Cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golcha dy ddwylo'.
- Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion a chadw pellter cymdeithasol pan fo'n bosibl.
- Sicrhau bod pob ystafell a choridor yn cael ei awyru'n addas.
- Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd.
- Defnydd o system un ffordd o gwmpas yr adeilad.

Er mwyn helpu i amddiffyn ein gilydd, hoffwn eich atgoffa y dylai pob rhiant/gwarcheidwad wisgo mwgwd ar dir yr ysgol oni bai eu bod wedi'u heithrio am resymau meddygol. A fyddech cystal â chadw pellter cymdeithasol oddi wrth eich gilydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gadewch dir yr ysgol yn syth ar ôl gollwng / casglu disgyblion.

**<u>GWEITHDREFNAU HUNANYNYSU A PHRAWF COVID:</u>**

**OS YW EICH PLENTYN YN COFNODI PRAWF LLIF OCHROL (LFT) NEU PCR POSITIF, HYSBYSWCH YR YSGOL MOR GYNT A PHOSIB ER MWYN EIN GALLUOGI NI I HYSBYSU'R TÎM TTP. MAE HYN HEFYD YN HANFODOL FEL EIN BOD NI'N MEDRU HYSBYSU CYSYLLTIADAU AGOS O FEWN YR YSGOL/DOSBARTH I BROFI AM 7 DIWRNOD.**

1) <u>Newidiadau i drefniadau hunan-ynysu ar gyfer y rhai a nodwyd fel cysylltiadau achos cadarnhaol:</u>

Bellach gofynnir i bob person dros 18 oed sydd wedi'u brechu'n llawn (ar ôl derbyn dau ddos llawn o frechlyn cymeradwy) a phlant rhwng 5 a 17 oed sefyll profion llif ochrol (LFTs) bob dydd am 7 diwrnod os cânt eu nodi fel cyswllt positif a achos COVID - 19. Gelwir hyn yn 'Daily Contact Testing'.

Gall unrhyw un a nodwyd fel cyswllt, sydd wedi'i frechu'n llawn neu rhwng 5 a 17 oed gael mynediad at brofion cyswllt dyddiol yn lle hunan-ynysu, boed yn byw yn yr un cartref neu'n gyswllt agos.

Rydym yn argymell bod y rhai sy'n cynnal LFT yn sefyll eu prawf cyn iddynt gyrraedd yr ysgol bob dydd. Nid oes angen i'r unigolion hyn hunan-ynysu am y diwrnod hwnnw oni bai bod ganddynt brawf LFT positif.

Os ydyn nhw'n derbyn LFT positif yna mae'n rhaid iddyn nhw ynysu ar unwaith a chofnodi'r prawf ar wefan y llywodraeth https://www.gov.uk/report-covid19-result neu ffonio 119.

Sylwch fod y cyfnod ynysu YN PARHAU I FOD YN **10** DIWRNOD, fodd bynnag, gall achosion cadarnhaol sefyll prawf LFT ar ddiwrnod 6 a 7 ac os yw'r DDAU LFT yn negyddol yna gallant ddod allan o ynysu yn gynharach ar ddiwrnod 8. Os ar ddiwrnod 6 roedd yr LFT yn bositif, yna gall yr unigolyn sefyll prawf ar ddiwrnod 7 ac 8 ac os yw'r ddau hyn yn negyddol yna gallant ddod allan o ynysu ar ddiwrnod 9. Ar ôl diwrnod 10 o ynysu, waeth os yw’r LFT yn bositif neu’n negyddol, mae’r cyfnodau ynysu yn dod i ben a gall y person ddychwelyd i'r gwaith / ysgol ar ddiwrnod 11.

• Rhaid i oedolion heb eu brechu a nodwyd fel cyswllt ag achos COVID - 19 positif ynysu am 7 diwrnod.

• Mae'r sefyllfa ar blant o dan 5 oed yn aros yr un fath - nid yw'n ofynnol iddynt hunan-ynysu na phrofi fel cysylltiadau.

2) Gweithdrefnau hunanynysu a phrofi ar gyfer PERSONAU SYMPTOMATIG (y rhai sydd â symptomau COVID)
Ni ddylai dysgwyr fynychu'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau:

• wedi profi'n bositif am COVID-19 trwy brawf LFT neu PCR;
• teimlo'n sâl gydag unrhyw un o symptomau COVID-19 (peswch parhaus; tymheredd uchel; colli blas; colli arogl).

Os yw dysgwr yn datblygu symptomau, dylent gynnal prawf PCR cyn gynted â phosibl (https://www.gov.uk/get-coronavirus-test), a hunan-ynysu nes eu bod yn derbyn canlyniad y prawf. Os yw'r prawf yn negyddol, gallant ddychwelyd i'r ysgol.

Gofynwn i chi i gyd sicrhau eich bod yn cadw at y mesurau a'r gweithdrefnau uchod er mwyn gallu cefnogi iechyd a lles staff a disgyblion a'n galluogi i gynnal dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch amynedd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn gywir,

***C Davies***

C DAVIES (Pennaeth)

CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE
Eco-Sgolion
International School Award
CYFLAWNI'N DEG